# Ein Bro

Newyddion

Ysgol Bro Hyddgen

News










Haf 2016 / Summer 2016

# Gair gan y Pennaeth

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Hoffwn ddymuno'n dda i nifer o aelodau staff sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor. Mae Mrs Carwen Williams yn ymddeol eleni yn dilyn dros dri deg mlynedd o wasanaeth arbennig i'r ysgol; gobeithio y gwnaiff fwynhau ei hymddeoliad a chael cyfle i ymweld â Tom y mab yn Canada. Hefyd hoffwn ddymuno'n dda i Mrs Lydia Jones, Ms Llinos Griffiths a Miss Nia Lois Griffiths sydd yn gorffen gweithio ar safle'r Campws Cynradd yr haf yma. Hoffwn ddiolch yn fawr iddynt oll am eu cyfraniad i addysg y plant a'u gwaith caled dros y blynyddoedd.

Edrychwn ymlaen at groesawu Mrs Cath Lloyd Williams yn ôl i'r gwaith ar ôl bod ar gyfnod mamolaeth a llongyfarchiadau mawr iddi ar enedigaeth ei mab bach, Mostyn. Hoffwn hefyd groesawu Miss Angharad Elias fydd yn dysgu Cymraeg ar y campws uwchradd o fis Medi ymlaen.

Gwnaed rhai newidiadau i'r strwythur staffio ar gyfer mis Medi, gyda Mrs Haf ap Robert yn cymryd yr awenau ar y campws cynradd a Mr Llifon Ellis yn cael ei benodi'n bennaeth y Chweched Dosbarth. Penodwyd Mr Tegid Owen a Miss Erin Good yn arweinyddion Blynyddoedd 7 i 9; Mr Alwyn Jones yn arweinydd Blynyddoedd 3 i 6 ar y Campws Cynradd a Miss Anna Rhys Davies a Mr Iwan Biffin yn Swyddogion Amddiffyn Plant ac yn gyfrifol am Anghenion Dysgu ychwanegol. Hoffwn eu llongyfarch i gyd a dymuno'n dda iddynt yn eu gwaith newydd.

Byddai'n braf gweld dechrau ymgyrch godi arian er mwyn i'r ysgol allu prynu bws mini. Ychydig flynyddoedd yn ôl roedd bws mini cymunedol yn yr ardal gyda'r ysgol yn gyfrifol am edrych ar ei ôl. Rydym yn gwario miloedd yn flynyddol ar draws y ddau gampws yn llogi bysiau. Byddai'n dda cael bws mini i'r ysgol er mwyn gallu sicrhau bod plant yr ysgol yn medru mynychu gweithgareddau yn ddirwystr - hyn mewn cyfnod pan mae cyllid yn brin iawn.

Mae safonau gwisg yr ysgol wedi disgyn yn nhymor yr haf, hoffwn eich atgoffa ein bod yn disgwyl i'r plant uwchradd ddod i'r ysgol mewn crys gwyn a thei porffor, trowsus du (nid jîns), esgidiau du (nid trainers) a siwmper lwyd. Mae'r rhain i gyd ar gael o gwmni *Constructiv* yn y Drenewydd.

Credaf fod eleni wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Ysgol Bro Hyddgen er gwaetha rhai straeon sy'n cael eu cyhoeddi yn y wasg. Rydym wedi profi mwy o lwyddiannau eleni yng nghystadlaethau'r Urdd nag erioed o'r blaen: llwyddodd yr ysgol i ddod i'r brig ac i guro ysgolion llawer mwy na'n hysgol ni. Hoffwn ddiolch i'r athrawon fu'n hyfforddi'r plant. Cafwyd llwyddiant hefyd yng nghystadlaethau **Cymdeithas Maldwyn** a chafwyd llwyddiannau ym myd Chwaraeon, Celf a Gwyddoniaeth. Yn ogystal â hyn, cafwyd nifer o berfformiadau gwych ar y ddau gampws, yn cynnwys y ***Sinffonia Gymreig***, ***Iasoer*** ac ***Efengyl Tangnefedd***.

Braf iawn yw cael adrodd bod y cylchgrawn hwn, *Ein Bro*, wedi ennill cystadleuaeth y cylchgrawn ysgol gorau am yr ail flwyddyn o'r bron, yng nghystadleuaeth y ***Daily Post***. Hoffwn longyfarch Mr Tomi Rowlands a'r tîm am y llwyddiant yma. Rwy'n ddiolchgar iawn i staff yr ysgol am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn; i'r plant am fod yn blant mor dda ac i chi'r rhieni am eich cefnogaeth.

Caiff y canlyniadau Safon Uwch eu cyhoeddi ddydd Iau 18 Awst a'r canlyniadau TGAU ddydd Iau 25 Awst. Bydd staff yr ysgol ar gael i gynorthwyo gyda cheisiadau prifysgol ddydd Gwener 19 Awst ac i drafod dewisiadau Ôl 16 ddydd Gwener 26 Awst.

Hoffwn ddymuno'n dda i bawb gan obeithio y daw'r haul allan yn o fuan.

Cofion Cynnes

Dafydd M B Jones

# Letter from the headteacher

*Dear Parents/Carers*

*A number of staff will be leaving at the end of term: Mrs Carwen Williams is retiring after over 30 years of excellent service to the school. I hope that she will enjoy her retirement and will be able to visit her son, Tom, in Canada. I would also like to thank Mrs Lydia Jones, Ms Llinos Griffiths and Miss Nia Lois Griffiths who are finishing at the Primary campus this summer; they have all showed admirable dedication to their work over the years.*

*I would like to congratulate Mrs Cath Lloyd Williams on the birth of her son Mostyn; we look forward to welcoming her back at the end of this term. I would also like to welcome Miss Angharad Elias who will be joining the Welsh department at the Secondary Campus in September.*

*There have been some other staffing changes following Mrs Haf ap Robert's move to lead the Primary Campus. Mr Llifon Ellis has been appointed the new Head of Sixth Form; Mr Tegid Owen and Miss Erin Good have been jointly appointed to lead Years 7-9 and Mr Alwyn Jones has been appointed to lead Years 3-6. Miss Anna Rhys Davies and Mr Iwan Biffin have been jointly appointed as Child Protection and Additional Learning Needs Leaders. I would like to congratulate them all and wish them well in their new posts.*

*It would be pleasing to start a campaign to buy a new school mini bus. Not so long ago there used to be a community bus kept at the school. We currently spend thousands of pounds on hiring buses for both campuses. It would serve the school budget well if the school could purchase its own bus in order to ensure that the pupils can continue to participate in activities at a time where funds are very low.*

*During the summer term a number of pupils have not been adhering to the school uniform policy on the secondary campus. I would like to remind you that we expect the secondary campus children to wear a white shirt, purple tie, black trousers (not jeans), a V neck jumper and black shoes (not trainers). The uniform can be bought on line from Constructiv Clothing, Newtown.*

*I believe it is fair to say that this year has been a very successful year for Ysgol Bro Hyddgen despite local media occasionally reporting to the contrary. The school was more successful in the Urdd Eisteddfod than any other year, with the children competing successfully against many larger schools. I would like to thank the teachers for giving up their time to tutor the children. Many of the school pupils competed successfully in the Montgomery Society competitions; also in sporting, art & science activities. Pupils have also taken part in three excellent and truly memorable performances: the* ***Welsh Sinffonia*** *in November,* ***Frozen*** *in December and* ***Efengyl Tangnefedd*** *in January.*

*I'm very pleased to report that* ***Ein Bro*** *has won the Daily Post best school magazine competition again this year. I would like to congratulate Mr Tomi Rowlands and his team. I am very grateful to the staff for their hard work and dedication during the year, the children for being so special and to the continued support from the parents.*

*The A Level results will be released on Thursday 18 August from 9.00am and the GCSE results on Thursday 25 August. Members of staff will be available to support and advise with university applications on Friday 17 August and to discuss Post 16 options on the Friday 26 August.*

*I hope that you will all have a good break and that the sun comes out soon.*

*Best wishes*

*Dafydd M B Jones*

# Cemeg SusNet Chemestry
# Prifysgol Aberystwyth—Aberystwyth University




Uned SUSNET Cemeg at Technoleg Gwyrdd

Mae'r uned yma yn ffocysu ar elfennau o dechnoleg gwyrdd ac wedi cael ei gyflwyno gan Dr Ifat Parveen sydd yn ymchwilydd gwyddonol ac yn ddarlithydd Cemeg yn IBERS.

Gwnaeth Meinri Jones a Mared Ingram o Ysgol Bro Hyddgen ymuno â'r sesiynau ymarferol gyda myfyrwyr o Ysgol Penglais a oedd yn gofyn iddynt gynnal arbrofion gwyddonol ac ymchwiliadau. Cafodd y myfyrwyr i gyd gyfle i ymweld â'r adeilad newydd, *'Beacon'* sydd wedi cael ei lleoli yn y Brifysgol ac yn fodd o gefnogi busnesau yng Nghymru.

Gwnaeth Prifysgol Aberystwyth sylw arbennig yn datgan eu balchder o'n myfyrwyr am roi o'u gwirfodd i fod yn rhan o'r gweithgareddau hyn.

*SusNet Chemistry Unit Green Technology*

*This unit focussed on aspects of Green Technology and was delivered by Dr Ifat Parveen, Senior Research Scientist and lecturer in Chemistry in IBERS.*

*Meinir Jones and Mared Ingram from Ysgol Bro Hyddgen joined students from Ysgol Pengalis in practical sessions led by Ifat which included the production of bioethanol via fermentation, an investigation into oil extraction from vegetable matter, the production of biodiesel and exploring oil viscosity. All the students were also given a guided tour of the Beacon Facility, which is based at the University, and helps Welsh businesses develop new ways of converting crops such as rye grass into products including pharmaceuticals, chemicals, fuels and cosmetics.*

*Aberystwyth University added that the girls are very impressive to give up their own precious time and make the effort to come to the University, we were very impressed indeed. A real credit to Ysgol Bro Hyddgen.*

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

- Diwrnod Canlyniadau Lefel A/AS / Results Day - 18 / 8 / 2016
- Diwrnod Canlyniadau TGAU / GCSE Results Day - 25 / 8 / 2016
- Dyddiau Di-ddisgybl / Non-pupil days - 1 + 2 / 9/ 2016
- DYDD CYNTAF YSGOL I DDISGYBLION / FIRST SCHOOL DAY FOR PUPILS - 5 / 9 / 2016
- **Tynnu lluniau ysgol (campws cynradd) / School photo's (Primary Campus)** - 15/09/2016
- Deintydd Ysgol (babanod) / School Dentist (infants) - 27/09/2016
- Hanner Tymor / Half Term— 24 – 28 /10/ 2016
- Arholiadau Allannol TGAU / GCSE External Exams 1 – 10 / 11 / 2016
- Dydd olaf tymor yr Hydref / Last day of Autumn term 16 / 12 / 2016
- Diwrnod Di-ddisgybl / Non-pupil day 3 / 1 / 2017
- DYDD CYNTAF TYMOR Y GWANWYN I DDISGYBLION/ FIRST DAY OF SPRING TERM FOR PUPILS 4 / 1 / 2017

# Gala Nofio / *Swimming Gala*

*Yn y Ffeinals Gala nofio Powys yn Aberhonddu rydym wedi cael llwyddiant unwaith eto gyda Finlay Thapa yn derbyn 2 fedal Aur, Freya Thapa wedi cael 2 fedal Arian, Grace Buschini 2 fedal Arian a Gwern Phillips 2 fedal Arian.*

*We have been successful once again in the Powys Swimming Gala in Brecon with Finlay Thapa receiving 2 gold medals, Freya Thapa also receiving 2 silver medals, Grace Buschini gaining 2 silver medals and Gwern Phillips also receiving 2 silver medals.*



# Prosiect Rhifedd Blwyddyn 5 a 6 / Numeracy project year 5 and 6





Fel rhan o uned o waith Rhifedd yn seiliedig ar gynllunio parc adloniant, bu disgyblion dosbarth 5/6H a 5/6J ar drip i Gelli Gyffwrdd ddydd Llun, 20 Mehefin. Yn ystod y tymor bu'r disgyblion yn ymchwilio i nodweddion parciau adloniant, yn casglu a chyflwyno data am hoff atyniadau, ac yn cymharu prisiau tocynnau mewn parciau eraill gan ystyried beth sy'n cynnig gwerth gorau am arian. Buont yn creu mapiau o'u parciau adloniant, yn datblygu eu gwybodaeth am strategaethau marchnata, ac yn cyfrifo ac olrhain costau.

Cafwyd diwrnod llawn hwyl yng Ngelli Gyffwrdd, ac roedd hyn wedi ysbrydoli'r disgyblion i greu cyflwyniadau am y parciau roeddent wedi eu cynllunio eu hunain.

As part of the numeracy unit of work which focuses on planning a theme park trip the pupils in class 5/6H and 5/6J went on a trip to "Genlli Gyffwrdd" on Monday 20th June. During the term the pupils have been researching the different aspects of a theme park and collecting and presenting information of their favourite items and comparing ticket prices with other parks while considering what makes value for money for their tickets. They were making maps of their theme parks and developing their information for marketing strategies and calculating the profit and costs.

We had a day full of fun in "Ngelli Gyffwrdd" and it was a good inspiration to the pupils to create their presentation about the parks that they have created themselves.

# Adran Wythoniaeth—Salters Festival

On Wednesday the 16th/18th of June, four pupils (two from year seven and two from year eight) travelled to Aberystwyth to compete in the annual Salters' festival of Chemistry, in which different schools battle it out to see who is the best at solving chemistry-related problems and conundrums. The four participants were Johann Jones and Oskar Bond of year seven, and two other individuals from year 8. When we arrived, we were treated to an array of biscuits and drinks immediately before entering the laboratory in which we would receive our safety briefing and don our rather fetching lab-coats. After wearing the slightly too large safety goggles provided, putting on the tightest rubber gloves you can imagine and, so that we would be recognised, name tags, we entered another scientific laboratory, filled with chemicals, chromatography paper and beakers. It was in this very room that we were to attempt to solve our first riddle, which was a classic 'whodunit' case with most probably the worst plot ever written.

Let me set the scene: It was the night before the queen's 80th birthday, and one of the members of the royal family were going to visit Salterstown in the forthcoming days. A meeting was being held regarding how the town would celebrate, and the leader, Fred Nurse (a hospital worker), wouldn't let any of the other participants contribute towards the conversation. This, dear readers, was the motive for the murder. As you might have guessed the victim, poor man, was Fred. After testing white powders found on the suspects (don't ask why they were there; I haven't a clue myself!) using different chemicals, and examining ink found in

# Cyngerdd Tabernacl - Tabernacl Concert





**Am gyfle!** Nos Sul, Mehefin 26ain, bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cyd-berfformio mewn cyngerdd Paradwys gydag artistiaid o enwogrwydd rhyngwladol. Bu Aron Parry, Dyfan Parry Jones, Malen Aeron, Ensemble Lleisiol Tegan Roberts, Glain Jones, Alaw Jones ynghyd â Chôr Cerdd Dant Iau buddugol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint 2016, yn rhannu llwyfan gyda Shan Cothi, Aled Wyn Davies, Catrin Finch ac ensemble Nidum. Yr ysbrydoliaeth tu ôl i daith Paradwys yw'r awydd i fynd â cherddoriaeth o safon fyd-eang i gymunedau gwledig Cymru, nid dim ond i brif ddinasoedd y De. Yn sicr, bu'r cyngerdd yn llwyddiant a derbyniodd ein disgyblion ganmoliaeth uchel am safon broffesiynol eu perfformiadau. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled ac am gynrychioli ein hysgol mor dda; mae eu hathrawes, Llio James, yn gwerthfawrogi eu hymroddiad yn fawr. Ynghanol y gwaith caled wrth gwrs mae sbort a chyfle i ymlacio ychydig - fel y gwelwch yn yr hunlun!

**What an opportunity!** On a Sunday evening, June 26th, many Bro Hyddgen pupils had an opportunity to perform in the Paradwys concert with internationally celebrated artists. Aron Parry, Dyfan Parry Jones, Malen Aeron, Vocal Ensemble Tegan Roberts, Glain Jones, Alaw Jones along with the Cerdd Dant Iau Choir that had been awarded first prize at the National urdd Eisteddfod in Fflint 2016, shared the stage with Shan Cothi, Aled Wyn Davies, Catrin Finch and Nidum ensemble. The inspiration behind the Paradwys tour is to take world-class music out to the rural communities of Wales, not just the main cities of the South. The concert was a resounding success, with the pupils receiving high praise for the professional standard of their performances. Many thanks to the pupils for their hard work and for representing our school so well; their teacher Llio James appreciates their commitment. Of course, hand in hand with hard work is an opportunity for some fun and relaxation - as can be seen in the selfie!

## Sciance Department—Salters Festival

their pens using chromatography, our team came to the conclusion that the killer was Jo Read, the local librarian. Of course, we were completely off-target, as it was in fact Emma Sprint, a sports teacher at the leisure centre (again, don't ask why her lack of participation motivated her to kill; this is one of the many mysteries that will probably never be solved).

After failing miserably on this assessment, we indulged in a ham-salad sandwich, some crisps and an orange whilst sitting on a pile of logs right next to the site of the day's fun so far. After consuming the final crumbs and the ultimate segment of orange, we headed to yet another lab where we were to complete our second task of the day, creating the colours of the rainbow using chemicals with different PH values and a universal indicator. Our lack of luck struck again, however, as we managed to make only 3 of the 7 colours, those being red, violet and green. We peered around the room and, in great disappointment, discovered that pretty much all of the other groups had created at least five of them.

We were then escorted to one of the lecture rooms in the university, where a woman explained the many appliances of chemistry and how particles are formed. To no avail, we were miserably confronted with a half-hour of receiving no prizes or any credit. At least we came home with something: the pride of representing our school in this wonderful competition.

By Oskar Bond

# 8 Beth yw COBWEB ?




Mae COBWEB, y Citizen OBservatory WEB, yn gynllun sy'n defnyddio 'gwyddoniaeth gwerin' (*citizen science*) sef galluogi dinasyddion i gasglu gwybodaeth amgylcheddol drwy ddefnyddio teclynnau symudol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn addas i'w ddefnyddio mewn ymchwil gwyddonol, gwneud penderfyniadau a llunio polisi.
Mae COBWEB yn ddibynnol ar yr hyn a elwir yn 'dorfdarddu' (crowdsourcing) sef casglu data gan dorf amhenodol o bobl.

**Beth yw gwyddoniaeth gwerin?**
Gellir diffinio 'gwyddoniaeth gwerin' yn eang fel cyfraniadau gwirfoddolwyr i wyddoniaeth. Mae'r dull yma o gynnal ymchwil gwyddonol yn dod yn fwy-fwy poblogaidd, gan y gellir casglu toreth o wybodaeth yn gyfleus. Yn ogystal, mae datblygiadau mewn technolegau symudol wedi gwneud gwyddoniaeth gwerin yn ymarferol fel modd o ymchwilio.

**Pam cymryd rhan?**
Mae COBWEB angen 'gwyddonwyr gwerin' sy'n awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau ymchwil yma yn ardal Biosffer Dyfi. Nid yn unig y gallech gyfrannu gwybodaeth ond gallech hefyd weld eich cyfraniadau chi ochr yn ochr â data'r 'dorf'.

**Beth yw Biosffer Dyfi?**
Mae ardaloedd Biosffer yn safleoedd sydd wedi eu dynodi dan raglen Bobl a'r Biosffer UNESCO i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar sail ymdrechion cymunedol a gwyddoniaeth safonol.
Biosffer Dyfi yw'r cyntaf yng Nghymru, un o 631 ardal debyg mewn 119 gwlad ar draws y byd.
Mae'r ardaloedd o gwmpas yr afon Ddyfi yn gartref i rai o dirluniau nodedig a bywyd gwyllt gorau Ewrop. Er hynny nid yw'r rhan fwyaf o Fiosffer Dyfi'n ardal o gadwraeth ond yn hytrach yn fan lle mae pobl yn byw ac yn gweithio.



# What is COBWEB?




*The Citizen Observatory Web is a project concerned with enabling citizens to collect environmental data using mobile devices. These data will be suitable for use in research, decision making and policy formation. COBWEB relies on what is known as crowdsourcing; information (data) collected by an undefined 'crowd' of people.*

***What is citizen science?***

*Citizen science can broadly be defined as the involvement of volunteers in science. It is becoming an ever more popular method of performing scientific research because large amounts of data can be collected. Advances in mobile technologies make citizen science increasingly viable as a research tool.*

***Why take part?***

*COBWEB needs aspiring citizen scientists to participate in its research activities. Not only can you contribute data, you can also see your contributions online alongside the rest of the crowd's data.*

***The Dyfi Biosphere***

*Biosphere Reserves are sites registered under UNESCO's Man and the Biosphere programme to promote sustainable development based on local community efforts and sound science.*

*The Dyfi Biosphere is the first in Wales, one of 631 biosphere reserves in 119 countries all over the world. The areas around the river Dyfi host some of the finest examples of special landscapes and wildlife areas in Europe. However, most of the Dyfi Biosphere is not a conservation area, simply places where people live and work.*



# Diwrnod Trosglwyddo Bl 6: COBWEB







Fel ysgol rydym wedi bod yn hynod o ffodus i gael y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun COBWEB. Mae'r cynllun yma wedi galluogi'r ysgol i ganiatau i'r plant ddenfyddio a datblygu sgilau a'r wybodaeth maent wedi eu dysgu yn y dosbarth a'u cymhwyso i'r byd mawr. Trwy gydweithio gyda'r RSPB yn Ynys Hir mae plant blwyddyn 6, fel rhan o'r wythnos trosglwyddo, wedi llwyddo i gofnodi data wyddonol mewn dull effeithiol drwy ddefnyddio dulliadau dilysu cywir. Mae'r prosiect hwn hefyd yn fodd o ddatblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol hefyd wedi bod yn ffodus o gael cydweithio gyda'r tîm addysg RSPB dros y 3 blynedd diwethaf i gwblhau prosiect sy'n cofnodi pa anifeiliaid sydd yn byw mewn gwahanol gynefinoedd yn y warchodfa natur. Bu'r disgyblion yn defnyddio'u ffonau symudol yn ogystal â meddalwedd COBWEB i gofnodi'r data yma mewn modd priodol a chywir.

Fel rhan o'r cynllun yma mae'r ysgol wedi derbyn gorsaf dywydd sydd am ein galluogi i ddefnyddio'r data yma i gymharu newidiadau mewn tywydd a darganfod mwy o wybodaeth am fathau gwahanol o dywydd ac ym mha fath o hinsawdd y mae'r anifeiliad yn hoffi byw ynddo.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i'r tîm addysg RSPB Ynys Hir am eu cymorth ac hefyd y tîm COBWEB am y cyfle i gymryd rhan yn y cynllun yma.

*As a school we have been very lucky to have the opportunity to be a part of the COBWEB project. This project has enabled the school and our pupils to give practical uses of the theory we teach in our lessons and to use this knowledge and see how it can be used in the real world. By co-working with the RSPB Ynys Hir education team our pupils were given the opportunity to record scientific information about what animals live in different habitats and using mobile devices the pupils are able to use this technology to gather this information.*

*The school has also been fortunate to be able to work with the RSPB team over the past 3 years to do a similar project based on which animals live in which habitats with our year 6 during transition week. The nature reserve has been using the portable devices and using validation to ensure the integrity of the data collected and the pupils are giving their feedback on how usable the devices are to use.*

*As part of this project the school has been donated a weather station in order to record and compare weather conditions with the records we collect. The data can then match which animals prefer which type of habitats and weather conditions.*

*We would like to take this opportunity to thank the RSPB education team for their hard work and but also the COBWEB team for having the opportunity to take part of this project.*

# Year 6 Transition day COBWEB



Dyma'r erthyglau gorau gan ddisgyblion Bl 6. Da iawn chi am ysgrifennu mor dda am y diwrnod!

Published here are 2 of the best articles from the day. Good work for writing so well about the trip!



*Ar ddydd Mercher, y 29ain o Fehefin, fe aeth disgyblion Bl6 ar drip i Ynys Hir i ddefnyddio yr ap COBWEB i ymchwilio i fewn i wahanol fathau o bryfed di asgwrn cefn.*

*Cychwynom o'r ysgol uwchradd am 9 o'r gloch. Pan cyrrhaeddom Ynys Hir roedd yn pistillio bwrw a roedd rhaid i bawb cerdded o'r bws i'r sied yn y glaw. Roedd hi'n daith hir o'r bws ond fe gyrraeddom ni'r sied yn y diwedd.*

*Yn gyntaf fe wnaethom gwrdd a rheolwr oedd yn mynd i ddod hefo ni heddiw. Achos fod hi'n bwrw hen wragedd a ffin fe wnaethom chwarae gem i ddysgu y wahaniaeth rhwng pryfed hefo asgwrn cefn a pryfed heb asgwrn cefn. Heddiw roedd rhaid i bawb chwylio am bryfed heb asgwrn cefn.*

*Y lle cyntaf aethom ni oedd y goedwig. Yn y coedwig fe wnaethom darganfod llawer o pry copau, a llawer o brogaod, a gan ddefnyddio'r app roedden ni'n cofnodi pob gwahanol math o bry a oedden ni'n darganfod a cymryd llun ohonynt, a tracio gan defnyddio'r dyfais GPS.*

*Ar ol orffen yn y goeadwig aethom i olchi ein dwylo ac yn cael cinio.*

*Nesaf aethom ni i'r llyn ac fe wnaethom darganfod llawer mwy o bethau yn fano. Roedd yna llawer o algi yn y llyn ac roedd rhaid i ni ei rhoi i fewn i dwb.*

*Ar ol hyn fe wnaethom ddilch i'r criw a fynd yn o lar y bws i'r ysgol.*

*Gan Aoife a Llio, blwyddyn 6*

On Wednesday 29th June the year 6 pupils from the primary campus visited the RSPB reserve in Ynys Hir. We had an oppurtunity to identify the creatures that live in the woodlands by searching under rocks and branches. Throughout this trip we learnt about what creatures live in each habitat. With the mobile devices we were given we used an app called COBWEB to fill in a survey that proved we had found the creatures and record data about them.

We enjoyed the part of the trip when the group went to the pond to see what creatures we could catch with the net before having to try to identify what creatures we had caught.

We would recommend the trip and app to 7 to 13 year old pupils.

By Robbie and Hakan, Year 6

# Cyflwyniad COBWEB - Cyfarfod Blynyddol Eco-Dyfi





Γεια σας φίλοι,

Gwnaethom gyflwyno cyflwyniad am COBWEB yng nghyfarfod blynyddol Eco-Dyfi. Y tîm oedd, fi (Jack), Cerys, Teal, Tomos, Kiran, Lucy, Rose a Lauren. Ar ddechrau'r cyflwyniad, roeddwn yn nerfus, ond pan roedd fy nhro i siarad, roedd popeth yn iawn. Gwnaethom job dda wrth gyflwyno ein syniadau a'n canfyddiadau am y prosiect.

Rydym yn gadael y DU i fynd i Wlad Groeg ar 10fed o Orffennaf o faes awyr Stansted trwy wneud ein ffordd draw i Thessaloniki. Cawn hefyd wylio'r gêm derfynnol yn nghystadleuaeth yr Euro's (Gorau chwarae, cyd chwarae). Yna, dydd Llun, byddwn yn gwylio adar mewn tŵr, diwrnod diwyllaint dydd Mawrth trwy ymweld â'r fynachlog. Ddydd Mercher, byddwn yn cael diwrnod o weithgareddau yn seiliedig ar y rhaglen COBWEB. Yn ystod y diwrnod olaf, dychwelwn i Thessaloniki a Chymru – gan obeithio y byddwn ni'n Bencampwyr Ewrop! Edrychaf ymlaen at y daith ac rwyf yn ddiolchgar am gael y cyfle cyffrous hwn.

Αντίο

Jack Evans (Blwyddyn 9)

Γεια σας φίλοι,

On May 16th we presented a PowerPoint in the annual general meeting for COBWEB meeting with the 8 of us, me (Jack), Cerys, Teal, Tomos, Kiran, Lucy, Rose and Lauren. We were required to present out ideas and findings during COBWEB trips. In the beginning, I was nervous, but when it was my turn to talk everything was OK! We did do a good job of presenting our ideas and opinions.

We are leaving the UK to go to Greece on the 10th of July and will make our way over to Thessaloniki on the Sunday. We will hopefully have the chance to watch the Euro's final(Together Stronger)! Then, on Monday we will be do some bird watching in a tower and on the Tuesday is a cultural day where we will visit a monastery. On Wednesday we will be having a activity day based on the COBWEB app. And on the last day of our long journey we will return home bake to Wales, hopefully European champions! I'm really looking forward to this and I'm thankful for having this opportunity.

Αντίο

Jack Evans (Year 9)

# Gweithdy Gwyddoniaeth CAT





Yn ystod y tymor hwn mae dosbarthiadau'r Adran Iau wedi mynychu gweithdy Gwyddoniaeth yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen. Thema'r gweithdai yw cynefinoedd, a chafodd y disgyblion gyfle i archwilio a chymharu dau gynefin cyferbyniol sef y goedwig a'r cae. Roedd y disgyblion wrth eu bodd gyda'r tasgau o chwilota am greaduriaid, adnabod planhigion ac adeiladu 'gwesty' i drychfilod. Diolch i Rob Goodsell am drefnu'r gweithdy.

*During the school term the foundation phase took part in a Science workshop in the Centre for Alternative Technology. The theme of the workshop was habitats and in particular comparing 2 different types; fields and woodland. The pupils enjoyed the tasks and researching into the different types of animals and plants while building new habitats for the animals. Thank you Rob Goodsell for organising the workshop.*

# UKMT her Mathemateg / UKMT Mathematics

Ddydd Iau,25ain o Chwefror, fe gystadlodd Cerys Hickman, Alex Monnox, Tyler Rolfe a Luke Simmonds o Ysgol Bro Hyddgen yn y gystadleuaeth ranbarthol UKMT; sialens Mathemateg ym Mae Colwyn. Fe gystadlodd dros bymtheg o ysgolion gogledd a chanolbarth Cymru ynghyd ag ysgolion gorllewin Lloegr yn y gystadleuaeth. Fe gystadlodd y tîm o Ysgol Bro Hyddgen yn dda iawn ym mhob un o'r 5 sialens y gystadleuaeth.

*On Thursday the 25th of February four pupils from Ysgol Bro Hyddgen, Cerys Hickman, Alex Monnox, Tyler Rolfe and Luke competed in the regional UKMT Mathematics challenge in Colwyn Bay. Over fifteen schools from north and mid Wales and the west of England competed in the event. The team from Ysgol Bro Hyddgen competed very well in all five of the challenging tasks of the competition.*

# OLEVI – rhaglen athrawon eithriadol

## Miss Anna Rhys Davies a Mr Biffin sydd wedi'u hyfforddi fel Arweinwyr Rhaglen Athrawon Eithriadol OLEVI

## Miss Anna Rhys Davies and Mr Iwan Biffin - both trained as Outstanding Teacher Programme Facilitators



OLEVI – rhaglen athrawon eithriadol

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn gyffrous o ran datblygiad proffesiynol parhaus i sawl athro ac athrawes yn Ysgol Bro Hyddgen. Yn nhymor yr Hydref 2015, cwblhaodd 6 o'n hathrawon sef Mrs Gwenan Phillips, Mrs Lowri Evans, Mr Iwan Biffin, Mr Alwyn Dylan Jones, Mr Tegid Owen a Miss Anna Rhys Davies y rhaglen athrawon eithriadol. Gwnaethpwyd hyn ar y cyd ag athrawon o Ffederasiwn Ysgolion Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair. Yn y man cyntaf, cyflwynwyd yr hyfforddiant hwn dan arweiniad Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

Pwrpas yr hyfforddiant oedd i ddatblygu dealltwriaeth yr athrawon ymhellach o weithgareddau dysgu ac addysgu rhagorol o fewn yr ystafell ddosbarth, ac hefyd i ddatblygu dealltwriaeth o sgiliau hyfforddi athrawon a disgyblion. Profodd y rhaglen i fod mor llwyddiannus fel y cafodd 2 athro'r cyfle gan Gyngor Sir Powys i hyfforddi i allu cyflwyno'r rhaglen hon, ac o ganlyniad, mae Mr Iwan Biffin a Miss Anna Rhys Davies bellach yn gymwys i wneud y gwaith. Maent eisoes wedi hyfforddi 12 o athrawon o ysgolion ar draws gogledd Powys yn cynnwys Mr Nic Ros a Mrs Manon Holt; digwyddodd yr hyfforddiant hwn yn Ysgol Bro Hyddgen yn ystod tymor yr Haf 2016.

Bwriedir parhau i ddatblygu fel canolfan hyfforddi athrawon eithriadol ac ymhyfrydwn yn y ffaith bod athrawon o ysgolion eraill ar draws gogledd Powys yn dod i Ysgol Bro Hyddgen i ddysgu o'n harferion dysgu ac addysgu ni. Llongyfarchiadau mawr i'r athrawon sydd eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus.

OLEVI – Outstanding Teacher Programme

This year has been an exciting year of continuous professional development for several teachers at Ysgol Bro Hyddgen. During the 2015 Autumn term, 6 of our teachers – Mrs Gwenan Phillips, Mrs Lowri Evans, Mr Iwan Biffin, Mr Alwyn Dylan Jones, Mr Tegid Owen and Miss Anna Rhys Davies completed the Outstanding Teacher Programme. This was done with teachers from the Carno, Glantwymyn and Llanbrynmair Primary Schools Federation. In the first instance, the programme was presented under the guidance of the University of Wales Trinity Saint David.

The purpose of the training is to develop further understanding by the teachers of outstanding teaching and learning activities within the classroom, and also to develop the teachers' understanding of coaching skills. The programme proved to be so successful that 2 teachers were offered the opportunity by Powys County Council to be trained to deliver the programme, and as a result, Mr Iwan Biffin and Miss Anna Rhys Davies are now qualified to do the work. They have already trained 12 teachers from schools across Powys, including Mr Nic Ros and Mrs Manon Holt; this training happened in Ysgol Bro Hyddgen during the summer term of 2016.

We intend to continue developing as a centre for the Outstanding Teacher Programme, and we're very proud of the fact that teachers from other schools across North Powys are coming to Ysgol Bro Hyddgen to learn from our teaching and learning work. Congratulations to all teachers who have already completed the training successfully.

# Gweithdy Barddoniaeth





Cafodd 4 o ferched Bl 5 sef Hanna, Gwenllian, Beca ac Enlli, dipyn o hwyl mewn gweithdy barddoniaeth dan arweiniad Anni Llŷn yn ddiweddar. Diolch i Bwyllgor Gwaith Eisteddfod Powys Croesoswallt a'r Gororau am drefnu

4 Year 5 girls, Hana, Gwenllian, Beca & Enlli, enjoyed composing poetry under the guidance of Anni Llŷn, the Children's Poet. Thanks to Eisteddfod Powys committee for arranging.

# Local School goes on Micro Safari!

Children from Ysgol Bro Hyddgen have been visiting the Centre for Alternative Technology (CAT) to learn about wild flower meadows and pollinator insects.

Wildflower meadow area has decreased across Wales, and this is not helped by the fact that bee, butterfly and hoverfly populations are in decline (honeybee populations were shown to drop 23% between 1985 and 2005).The value of pollinator species to the UK farming economy is around £430 million. If human beings had to do this pollinating the cost of the same service would be £1.8 billion. Over 200 Foundation phase and Key Stage Two children have studied different habitats, comparing the type of invertebrates found in the meadow and bordering hedgerows. The project, which has been funded by the People's Postcode Lottery, has provided the children with opportunities to conduct a baseline survey of the areas and learn techniques to enhance their own environment for invertebrate species and plant life to support these insects.

The children have learnt how to use scientific equipment including sweep nets, pooters and magnifying pots. They use this equipment to find key animal and plant species among the biodiversity of the CAT site.

The next stage of the project is to link to the school sites and encourage the seeding of pollinator friendly plants and to further develop positive experiences and links between National Curriculum requirements and outdoor learning.

Mrs Haf ap Robert, Assitant Headteacher at Ysgol Bro Hyddgen primary campus said, 'The children have had a really positive learning experience which has enhanced their understanding and appreciation of key aspects of the science curriculum. The scientific knowledge the children have acquired will, I'm certain, be applied across the curriculum; the project may even have pollinated some budding bee keepers of the future! We are very grateful to the People's Postcode Lottery for funding this project.'

# Adran Addysg Gorfforol: Athletau Sir Powys Region Athletics

## Athletau Sir Powys Region Athletics



Ar Fai'r 26ain fe deithiodd blynyddoedd 7, 8, 9 a 10 i Aberhonddu i gystadlu ym mabolgampau Powys. Roedd hi'n ddiwrnod braf a llwyddiannus gyda nifer o ddisgyblion yn rhagori yn eu cystadleu-aethau. Cafodd yr ysgol un o'r diwrnodau mwyaf llwyddiannus a fu erioed . Mewn cyfanswm fe lwyddodd yr ysgol i ennill 2 wobr Aur, 6 Arian a 6 Efydd. Da iawn i bawb a wnaeth gystadlu a phob lwc i Crarig Debell (Bl9) acEllie Hinge (Bl8) a fydd  yn cynrychioli'r Sir ym mhencampwriaeth Cymru ym Mehefin.

On 26/5/16 years 7,8 9 and 10 travelled to Brecon to compete in the Powys athletics. It was a pleasant and successful day with many pupils excelling in their competition. The school received one of the most successful competition recorded. In total, the school won 2 Gold's, 6 Silvers and 6 Bronze medals. Well done to all those who competed and good luck to Crarig Debell (Bl9) and Ellie Hinge (Bl8) who will represent Powys in the Wales Championship in June.



**1af / 1st**

- Craig Debell- 100m
- Ellie Hinge- Pwysau/Shot Putt



**3ydd / 3rd**

- Dafydd George- Pwysau/ Shot Putt
- Chloe Duckett- Disgen
- Niamh Williams- Pwysau
- Mared Griffiths- 100m

**2il / 2nd**





- Callum Clarke- Naid Uchel a Naid Drifflyg/ High Jump and Triple Jump
- Caden Lewis- Disgen/ Discus
- Jake Hinge- Naid Uchel
- /High jump
- Gilby Campell- Gwaywffon/Javelin
- Relay Blwyddyn 9- Craig Debell, Tom Harding, Kiran Ingham, Guto Price
- Emma Halls– Naid Uchel
- / High Jump
- Henry Wickham- 80m Hurdles





# Criced Gogledd Powys / North Powys Cricket



## Tîm Criced Blwyddyn 9 / Year 9 Cricket team

Ar 27ain o Fehefin, fe deithiodd tîm Criced Blwyddyn 9 i'r Trallwng i gystadlu yn y gystadleuaeth Criced Gogledd Powys gyntaf erioed. Cafodd y tîm eu tynnu yn erbyn Llanfyllin a'r Trallwng yn y gemau cyntaf a rhaid canmol y bechgyn wrth gystadlu yn erbyn chwaraewyr o safon uchel sydd yn chwarae'n wythnosol. Roedd hi'n brofiad arbennig i'r bechgyn gyda Luke Ashworth yn rhoi perfformiad rhagorol gyda'r bat.

*On 27/06/16 the Year 9 Cricket team travelled to Welshpool to compete in the first North Powys cricket tournament. They were drawn against Llanfyllin H.S and Welshpool in the group stages and to the pupil's credit gave their all whilst competing against pupils who played at a high standard weekly. It was a fantastic experience for the pupils with Luke Ashworth putting in a noteworthy performance with the bat.*

# Tim F1 Ysgol Bro Hyddgen



Ar y 13eg o Ebrill fe gymerodd 6 disgybl blwyddyn 9 Ysgol Bro Hyddgen sef Jack Evans, Dyfrig Harding, Moses Hodgetts, Ezra Taylor, Alex Monnox a Matthew Ames ran yn yr her F1 mewn ysgolion. Roedd y gystadleuaeth yn gofyn i'r tîm ddylunio a chreu car F1 bach allan o falsa a'i rasio yn erbyn ysgolion eraill Gogledd Cymru. Fe lwyddodd y tîm i gael ail yn y gystadleuaeth rasio ynghyd â derbyn y wobr am y dyluniad fwyaf arloesol.
Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw i gyd!

On the 13th of April 6 students from Ysgol Bro Hyddgen Jack Evans, Dyfrig Harding, Moses Hodgetts, Ezra Taylor, Alex Monnox and Matthew Ames took part in the F1 in schools challenge. The competition required the tea to design and manufacture a small F1 car made from balsa and race against other schools across North Wales. The team won the runner up award for the racing and first place for the most innovative design. Congratulations to them all!

# Going Wild in Bush Hill



## Clwb Natur yn y campws Cynradd

## Nature Club in the primary campus



The children at the Primary site have been learning about nature in the school grounds and getting their hands grubby searching for insects, building bug houses and completing some land art.
Initially the prospect of a Wild Wednesday excited the staff, some thinking of it as a mid-week pick-me- up…….. but then they realised the club was for the children.
As soon as the project got underway the children became very engaged and we now have 63 very keen nature detectives.
So far we have conducted a Bio Blitz of the site: this involved collecting plant species by using a simple string transect and observing what we found. For the insects we used sweep nets to collect from the long grasses on the bank and tipped them out into trays to examine them. A clicking beetle was the highlight.
We had a moth trap kindly set up and shown to us by Elen and Tristan's mum, Heather and found some interesting hawk moths which took our breath away.
Some of the children have been making bug houses to take home. A process of collecting materials and rolling into a cylinder held together by some chicken wire. You can look at the instructions on the Wild Wednesday board in the Primary hall.
We hope to congregate all members on the afternoon of the summer fair (Wednesday 6 July) in order to celebrate our learning and understanding of the natural world.
I hope to see many of the 'Wildweds kids' back next academic year.

Rob Goodsell

Mae'r disgyblion ar y campws cynradd wedi bod yn dysgu am y natur sydd o gwmpas yr ysgol ac wedi bod yn chwilio am bryfaid ac wedi bod yn adeiladu tai ar gyfer y pryfaid ac wedi bod yn creu celf ar dir.

Lledaenodd y newyddion am y clwb hwn a'r hwyl sydd i'w gael yn gyflym iaen a bellach mae 63 o ddisgyblion yn cymryd rhan.

Hyd yn hyn rydym wedi gwneud ymchwiliad "Bio Blitz" o'r safle; mae hyn yn cynnwys casglu gwahanol fathau o blanhigion ac yn cofnodi beth rydym wedi ei ddarganfod. Gwnaethom ddefnyddio swabiau rhwyd i gasglu pryfaid a'u harddangos ar hambwrdd er mwyn eu dadansoddi nhw. Dal chwilen oedd uchafbwynt y weithgaredd hon.

Roedd gennym drap gwyfyn a oedd wedi cael ei osod gan Fam Trystan ac Elen. Daeth Heather o hyd i greaduriaid diddorol a adawodd argraff arbennig arnom ni. Gwnaeth rhai o'r plant dai pryfaid i fynd adre gyda nhw. Roedd hwn yn broses hir wrth gasglu defnydd a'u rholio i fewn i silindr a oedd wedi cael ei ddal at ei gilydd gyda gwifren.

Rwyf yn edrych ymlaen at weld llawer o'r aelodau eto yn y flwyddyn acedemiadd newydd!

# Ymweliad grwp Tecstiliau i Aberdyfi







Ar 19eg o Ebrill, aethom ar y tren i Aberdyfi er mwyn canfod syniadau i'n hysbrydoli ar gyfer ein gwaith Tecstiliau TGAU lle'r ydym yn astudio pentrefi Aberdyfi a Phortmeirion. Yn gyntaf, aethom o gwmpas y pentref yn tynnu lluniau a braslunio gwahanol batrymau, siapiau a lliwiau ar y strwythurau a'r adeiladau gwahanol cyn mynd ymlaen i weld gwaith artistiaid lleol yn y galeri 'Art Works'. Tynnwyd llawer o luniau o'r gwaith celf yno a cawsom gyflwyniad gynddynt am eu gwaith. Hefyd roedd cyfle i weld gwaith enghreifftiol A*. Roedd yno lawer o esiamplau o waith artistiaid lleol yno, a oedd yn braf eu gweld, ac yn rhywbeth i'w anelu tuag ato gyda'n gwaith ni. Dysgon ni am wahanol amrywiaeth o dechnegau y gellir eu defnyddio yn ein gwaith ni yn y dyfodol. Ar y cyfan, roedd hi'n ddiwrnod prysur ac ysbrydoledig dros ben. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n hathrawes Mrs. C. Hughes am drefnu. Hefyd diolch i'r Art Works am y croeso cynnes.

Grwp Tecstiliau Bl10

*On the 19th of April we went on a train to Aberdyfi to collect ideas to inspire us for our Textiles GCSE work where we study the villages of Aberdyfi and Portmeirion. Firstly we went around the village to take photos but also sketches of different patterns, shapes and colours that inspired us from the building architecture . Secondly, we looked at local artists work in local art gallery's. We visited the "Art Works" gallery and we took a number of pictures of the art work there but we also had the opportunity to see A* standard work. There were plenty of examples of local artists work which was lovely to see and something we can inspire for. We learnt about different techniques that we could use in our work in the future. In all, it was a very busy but inspiring day and we would like to thank our Teacher Mrs C. Hughes for organising. We would also like to thank Art Works for their warm welcome.*

*Textiles group Yr 10*

# Mach Maethlon ac Ardal Chwarae Newydd!







Mae disgyblion dosbarthiadau 2W, 3/4/5R, 3/4P a 4/5T wedi elwa'n fawr o weithdai gyda *Mach Maethlon* sydd yn ymweld â'r ysgol bob pythefnos. Maent wedi bod yn gwneud gwaith garddio ar dir yr ysgol gan dacluso'r gerddi a phlanu gwahanol blanhigion. Mae ffrwyth eu llafur yn dechrau egino a bydd gwledd o flodau erbyn yr Haf.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle yma i ddiolch i'r GRhA y campws cynradd am gasglu arian i ddatblygu yr ardaloedd chwarae i'r plant.



*Pupils from 2W, 3/4/5R. 3/4P 4/5T have been benifiting from many workshops with Mach Maethlon who have been visiting the school every 2 weeks. They have been doing gardening workshops on the school grounds and helping to tidy up and planting new plants. The fruits of their labor has already started to appear and will be ready to eat by the Summer.*

*We would also like to take this opertunaty to thank the Primary Campus PTA for raising money to install new playing areas in the primary campus.*

# Ffair Haf Campws Cynradd






Yn ystod Ffair Haf y Campws Cynradd a gynhaliwyd nos Fercher 6 Gorffennaf, cylfwynwyd diffibriliwr i'r ysgol a'r gymuned gan Barbara, Lyn a Glenys, swyddogion cyfeillion gyrfa chwist y Clwb Bowlio. Derbyniwyd y diffibriliwr ar ran yr ysgol gan Beca, Mabon, Sophie a Lydia. Mae'r ysgol yn hynod ddiolchgar am y rhodd hwn ac yn edrych ymlaen i gynnal sesiynau ymgyfarwyddo gyda'r peiriant achub bywyd hwn yn y tymor newydd. Caiff y diffibriliwr ei osod ar wal allanol yr ysgol yn y man mwyaf cyfleus i'r gymuned fedru cael mynediad iddo. Dyma oedd gan Glenys i'w ddweud wrth gyflwyno'r diffibriliwr:

- Mae'n bleser gennym gyflwyno y diffibriliwr yma i'w osod tu allan i'r campws cynradd ar gyfer Staff, disgyblion a'r gymdogaeth.
- *This defib has been partly funded by the whist drives held weekly at the bowling club and the remainder by an anonymous donor. The insulated box has been donated by Scottish Power.*
- *So far we have contributed towards 15 defib covering an area from Talybont, Pennal to Cwmllinau.*
- *We are anxious to hold training sessions in using the defibs in the near future, with professional trainers. If you wish to attend one of these sessions, please contact the school office*

